Cofnodion Cyngor nos Iau Rhagfyr 14 2023 am 7pm

Presennol: E.R.Noble, C.Brewer, T.W.Jones, C.L.Price, Liz Roberts, M.Skerrett, M.L.Hughes. I.W.Griffiths

Datgan Diddordeb. Dim

Cofnodion. Cadarnhawyd cofnodion Cyngor Tachwedd 16 cynnig E.R.Noble, cefnogi M.L.Hughes a pawb o blaid.

Heddlu. Atebiad gan PC Peter Jones yn dweud eu bod wedi galw yn yr Orsaf ac wedi gweld y difrod, Network Rail sydd yn gyfrifol am y safle wrth gwrs, mae problemau tebyg yn Llanrwst. Gan nad oes CCTV ar gael mae hi'n anodd. Nid ydynt wedi cael unrhyw gwynion arall o'r ardalac mae eu hardal mor eang, maent yn annog pobol i alw 101 neu'r wefan. Mae galw yn Nolwyddelan yn dibynnu ar y galwadau eraill maent yn gael

Yr A470. Clerc i gysylltu gyda Paul Sagar ynglyn â'r sefyllfa ger ceg Ffordd Roman. Dim ymateb gyda symud yr arwyddion 20mya.

Cyngor Sir. Tebyg fod y ffaith fod arian yn brin yn rhwystro gwneud gwaith ar Allt Cyfyng. Tyllau drwg yng ngwyneb y ffordd ger 10 Maes y Braich.

Scottish Power. Ail godi'r mater yn y Flwyddyn Newydd.

Toiledau. Roedd Liz Roberts wedi cael cyfarfod buddiol arall gyda Mal Holt a swyddogion CBSC i drafod sefyllfa y toiledau, mae hi'n ffyddiog y ceir y taliad o £500 eto y flwyddyn hon. Pwysig fod arian yn cael ei fancio yn fisol. Roedd y broblem gyda talu hefo cerdyn i gael mynediad i'r Toiled yn un gyffredinol. Roedd y swyddogion yn canmol cyflwr glân y toiledau. Roedd y swyddogion wedi medru rhoi sylw i agor un drws oedd wedi bod yn rhoi trafferth i Zac.

Y Gofgolofn. Cadarnhaodd C.Brewer fod cyfeillion Dolwyddelan yn ei Blodau wedi bod yn gweithio yn y Gofgolofn ar gyfer Sul y Cofio, gwerthfawrogwyd hyn yn fawr. Nododd C.Brewer wrth y Clerc fod angen talu i Alison Liederbach am dywod roedd hi wedi'i brynu ar gyfer y gwaith.

Gwaith yn y Fynwent. C.Brewer a Liz Roberts yn parhau yn ddi-flino gyda'r gwaith o geisio cael grantiau ac ati i gynorthwyo gyda chostau'r gwaith, diolchwyd yn gynnes iddynt am eu gwaith a'u dyfalbarhad.

Ariannol. Rhoes y Clerc adroddiad am y sefyllfa bresennol i'r Aelodau a chytunwyd ar y biliau i'w talu, cynnig C.Brewer, cefnogi M.L.Hughes. Cyfeiriodd E.R.Noble at y ffaith ei fod yn teimlo y dylid sefydlu pwyllgorau o fewn y Cyngor i drafod materion perthnasol.
Enwyd T.W.Jones, Liz Roberts, E.R.Noble, M.Skerrett a'r Clerc i fod ar y pwyllgor Personnel, a C.L.Price, M.L.Hughes, C.Brewer, a I.W.Griffiths ar y pwyllgor Apeliadau.
Pwyllgor Pesronnel i gyfarfod yn y Ganolfan Ionawr 3 am 7pm.

Diffibriliwr. Dim i'w adrodd.

Gwasanaeth Bysiau. Cadarnhaodd Liz Roberts fod y bws yn cael ei chefnogi'n dda ac erbyn hyn yn cynnwys teithiau i Roman Bridge.

A470 Bwlch Gorddinan. Dim ymateb gan Neil Dyson, Clerc i anfon ato eto i holi am y sefyllfa.

Coeden Nadolig. Cytunwyd fod y digwyddiad wedi bod yn llwyddiant eto eleni gyda nifer luosog yn gwylio ar y Sgwar, nododd y Clerc ei ddiolch i C.Brewer am yr holl waith trefnu roedd hi wedi bod ynglŷn ag o ar gyfer y noson. Roedd sawl person o'r pentref hefyd wedi rhoi help llaw i hwyluso'r noson. Diolch iddynt. Angen diolch i Wayne a Darren am eu gwaith gyda'r goleuadau hyd yr A470.

Archeb 2024 Bydd angen trafod y ffigwr ar gyfer 2024 erbyn Ionawr 19 2024.

Trefn Bancio. Dywedodd M.Skerrett ei fod ef, T.W.Jones a'r Clerc wedi cwblhau manylion dros y we ar gyfer Bancio ar Lein/Dros y Ffôn, bydd rhaid aros i weld sut bydd yn gweithio.

Torri Coed. Clerc wedi derbyn atebiad 'niwlog' gan Simon Billington CBSC ynglyn â'r broblem gyda torri'r coed ym Mhont y Pant a ger Gweithdy, bydd yn dilyn i fyny ar hyn.

Archwiliad. Cadarnhaodd y Clerc fod y ffurflenni ar gyfer 2023 wedi ei cwblhau a'i hanfon i'r Swyddfa yng Nghaerdydd.

Cynllun. Llongyfarchwyd Liz Roberts am ei gwaith gyda sicrhau grant ariannol o £9980 i gynnal arolwg o anghenion yn y pentref.

Biniau Cŵn. Sylw gan I.W.Griffiths fod angen bagiau yn y bin ger Pont Bwlch.

Llifogydd Dim gwybodaeth i ddweud os oedd Owen Conry a Rob Jones wedi galw yn y pentref. Tebyg y byddant yn galw ar ôl y Nadolig bellach?

Cyfarfod nesaf. Cytunwyd i gyfarfod nesaf nos Iau Ionawr 11.